Eisteddfod Castellnewydd Emlyn 20/06/26

LLENYDDIAETH

1. Cystadleuaeth y Gadair. Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 o linellau ar y testun **'Egin'**. Gwobr: cadair fechan yn rhoddedig gan gwmni cyfreithwyr Agri Advisor, Castellnewydd Emlyn a £100 (yn rhoddedig gan Gyngor Cymunedol Llandyfriog)
2. Telyneg: **'Atgofion'**. 1af £25.
3. Englyn: **'Dathlu'**. 1af £25 (yn rhoddedig gan Mr John Lewis, Annwylfan, Castellnewydd Emlyn, er cof am Mr David a Mrs Mari Lewis).
4. Stori Fer. **Agored**. 1af £25.
5. Darn llefaru i blentyn oed cynradd gyda thema lleol. 1af £25 (yn rhoddedig gan y Parchg Sian Elin Thomas)
6. Limrig yn cynnwys y llinell:
   'Fe es i fel arfer i'r steddfod'. 1af £10.
7. Brawddeg: "**P-A-R-C-N-E-S-T**". 1af £10.
8. Tlws Ieuenctid dan 21 oed. Un o'r canlynol: Cerdd heb fod dros 60 llinell/ysgrif/stori/dyddiadur. Testun: **Agored.**
   Gwobr: Tlws Ieuenctid (yn rhoddedig gan gangen Merched y Wawr Emlyn) a £30.

Adran y Dysgwyr

9. Darn o ryddiaith blwyddyn 10 a dan 19 oed: Testun: **Agored** 1af £20
10. Darn hyd at 200 o eiriau i ddysgwyr unrhyw lefel. Testun: **Dyddiadur Tri Diwrnod** (i'w gyhoeddi yn y Papurau Bro). 1af £25

Y cyfansoddiadau i fod yn llaw'r Ysgrifennydd Llên erbyn 20 Mai, 2026.

Rhodder ffugenw yn unig ar y gwaith, a chyda phob cyfansoddiad rhaid danfon enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cystadleuydd ar wahân gyda rhif y gystadleuaeth a ffugenw'r cystadleuydd.

Dychwelir y cynhyrchion bythefnos ar ôl yr Eisteddfod ond i'r perchennog amgáu amlen â stamp barod.

Atelir pris tocyn oni bydd y buddugol neu gynrychiolydd yn bresennol

YSGRIFENNYDD LLÊN: Llinos Evans, Rhoslwyn, Coedybryn, Llandysul SA44 5JL (01239 851659 / levans573@btinternet.com)